Gweiddi

## Tasg 1

# Teg edrych tuag adre

1. Darllenwch y darn eto ac yna ysgrifennwch **Cywir**, **Anghywir** neu **Ddim yn y darn** wrth ochr y gosodiadau hyn.

| | | Cywir<br>Anghywir<br>Ddim yn y darn |
|---|---|---|
| 1. | Mae'r Navaho yn byw ym Mecsico. | |
| 2. | Llwyth o Dde America yw'r Navaho. | |
| 3. | Roedd y Navaho yn ffermwyr. | |
| 4. | Ffermwyr yw'r Navaho heddiw hefyd. | |
| 5. | Roedd pobl yn dwyn y tir oddi ar y Navaho. | |
| 6. | Roedd y Navaho yn ymosod ar y bobl hyn. | |
| 7. | Cyrnol Kit Carson oedd arweinydd y milwyr oedd yn ymosod ar y Navaho. | |
| 8. | Cafodd y Navaho eu cymryd mewn cerbydau i'r Bosque Redondo. | |
| 9. | Roedd bywyd yn dda yn Bosque Redondo. | |
| 10. | Bu Manuelito farw yn 1893. | |

2. Pam mae'r ymadrodd "Teg edrych tuag adre" yn addas i'r stori hon?

3. Gwrandewch ar y gân "Y Navaho" ar y wefan hon:

https://www.youtube.com/watch?v=Tg2HcbVPPzk

Atebwch y cwestiynau hyn.

a. Sut mae'r gân hon yn adleisio'r testun ar y brif sgrin?

Gwnewch restr o bwyntiau.

Cymharwch eich rhestri.

b. Pa fath o deimlad sy'n cael ei gyfleu yn y gân?

Sut mae'r teimlad yn cael ei gyfleu?

Rhowch enghreifftiau o eiriau addas.

Meddyliwch am y lluniau a'r gerddoriaeth hefyd.